

Diweddariad Llechi Cymru *Update*

Mawrth 2025
March 2025



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE





Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Llewyrch o'r Llechi

£18.6m Llywodraeth y DU / UK Government
£26m cyfanswm prosiect / total project value

Enghraifft o sut mae statws Treftadaeth y Byd wedi cael ei ddefnyddio i ddenu cyllid ychwanegol.

Gwelwch Fwletin Hydref 2024 ar gyfer gwybodaeth gefndirol y prosiect. **[Cliciwch yma.](#)**

Mae ychydig o gyllid Llewyrch o'r Llechi hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith cadwraeth yn ardaloedd Dinorwig, Ogwen a Ffestiniog.

Hwb Dinorwig

- Ailddatblygu **Amgueddfa Lechi Cymru**: yn cynnwys gwaith cadwraeth helaeth, uwchraddio gofod addysg ac arddangos a sefydlu'r Amgueddfa fel prif ganolbwynt Safle Treftadaeth y Byd
- Mae'r amgueddfa yn awr ar gau tra bod gwaith ailddatblygu yn digwydd. Fodd bynnag, mae gan yr amgueddfa bresenoldeb yn ysbyty Chwarel Dinorwig (Llanberis), Cei Llechi (Caernarfon) a Chastell Penrhyn (Bangor)
- Gwelliannau i **Barc Gwledig Parc Padarn**: yn cynnwys aildefnyddio adeiladau hanesyddol, gwelliannau i lwybrau troed ac uwchraddio cyfleusterau (gan gynnwys toiledau a pharcio)
- **Prosiectau cadwraeth**: Mae Cadw wedi rhoi Caniatâd Heneb Gofrestredig ar gyfer gwaith cadwraeth ar inclên yr A1, Chwarel Vivian. Dechreuodd y gwaith ym mis Medi 2024

An example of how World Heritage status has been used to attract additional funding.

*See November 2024 bulletin for background information on the project: **[click here.](#)***

Some of the Llewyrch o'r Llechi funding has also been allocated for conservation works in the Dinorwig, Ogwen and Ffestiniog areas.

Dinorwig Hub

- ***Redevelopment of the National Slate Museum***: to include extensive conservation work, upgrading education and exhibition space and establishing the Museum as the main hub for the World Heritage Site
- *The museum is now closed whilst redevelopment work takes place. However, the museum has a presence at Dinorwig Quarry hospital (Llanberis), Cei Llechi (Caernarfon) and Castell Penrhyn (Bangor)*
- ***Improvements to Parc Padarn Country Park***: including the reuse of historic buildings, improvements to footpaths and upgrading facilities (including toilets and parking)
- ***Conservation projects***: Cadw have granted Scheduled Monument Consent for conservation work on the A1 Incline, Vivian Quarry. Works began in September 2024





Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Llewyrch o'r Llechi

Hwb Ogwen

- Gwelliannau yn **Neuadd Ogwen** (Bethesda) i alluogi'r gallu i gynnal digwyddiadau diwylliannol o'r radd flaenaf. Mae hyn yn cynnwys mesurau gwrthsain newydd o'r radd flaenaf
- Mae prosiect **Yr Hen Bost** yn cynnwys ail-ddylunio'r hen siop Spar ar Stryd Fawr Bethesda i fod yn ased cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys canolfan dreftadaeth, unedau busnes a mannau cymunedol. Mae contractwr wedi cael ei benodi ac mae'r gwaith wedi dechrau
- Gwell cysylltedd rhwng Bethesda a'r dirwedd llechi drwy welliannau i **Lôn Las Ogwen** a llwybrau cyhoeddus eraill: mae gwaith wedi'i gwblhau ar bontydd ger Porth Penrhyn, mae gwelliannau pellach wedi'u cynllunio

Hwb Ffestiniog

- Mae **Antur Stiniog** wedi prynu **Tŷ Abermawddach** drwy'r rhaglen. Mae gwaith adnewyddu ar y gweill yn adeilad **Aelwyd yr Urdd**
- Bydd **22 a 23 Stryd yr Eglwys** hefyd yn cael eu hadnewyddu, i'w defnyddio fel ased cymunedol
- Llwybr teithio llesol newydd rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd yw **Llwybr Llechwedd**

Ogwen Hub

- *Improvements at **Neuadd Ogwen** (Bethesda) to further enable capacity to host world-class cultural events. This includes new state of the art soundproofing*
- ***Yr Hen Bost** project involves the redesign of the former Spar shop on Bethesda High Street into a community asset. This will include a heritage centre, business units and community spaces. Contractor has been appointed and work has begun*
- *Better connectivity between Bethesda and the slate landscape via improvements to **Lôn Las Ogwen** and other public footpaths: work has been completed on bridges near Porth Penrhyn, further improvements are planned*

Ffestiniog Hub

- ***Antur Stiniog** have purchased **Tŷ Abermawddach** through the programme. Refurbishment work is underway at the **Aelwyd yr Urdd** building*
- ***22 and 23 Church Street** will also be renovated, for use as a community asset*
- ***Llwybr Llechwedd** is a new active travel route between Blaenau Ffestiniog and Llechwedd Quarry*



Yr Aelwyd, Blaenau Ffestiniog



Amgueddfa Lechi Slate Museum, Llanberis



Neuadd Ogwen, Bethesda

Fel rhan o raglen Llewyrch o'r Llechi, dyrannwyd cyllid hefyd ar gyfer:

- **Gwelliannau canol y dref** ar draws y dirwedd llechi ym mhrif gymunedau Safle Treftadaeth y Byd
- **Cynlluniau celf cyhoeddus:** mae murlun llechi wedi ei gwblhau ar Stryd Fawr Blaenau Ffestiniog. Cerfluniau Porthmadog hefyd wedi'i gwblhau
- Gwaith cadwraeth: **Modelau 3D, Chwarel Diffwys.** Gellir defnyddio'r modelau hyn fel rhan o fonitro cyflwr, maent hefyd yn fodd o brofi elfennau o'r dirwedd hanesyddol heb ymweld â safleoedd yn gorfforol

Gwelliannau Canol Tref

- Cynllun arwyddion cyfeiriadol i gerddwyr yn cael ei ddatblygu ar gyfer y prif gymunedau llechi
- Gwelliannau i'r llwybr troed a'r priffyrdd wedi'u cwblhau yn **Nhywyn, Porthmadog, Penygroes a Bethesda**, hefyd i'w cwblhau yn **Llanberis a Blaenau Ffestiniog**
- Uwchraddio Golff Giamocs ym **Mhorthmadog** ynghyd â baneri Llechi Cymru

As part of the Llewyrch o'r Llechi programme, funding has also been allocated for:

- **Town centre improvements** across the slate landscape in the main communities of the World Heritage Site
- **Public art schemes:** a slate mural has been completed on Blaenau Ffestiniog High Street. Porthmadog sculptures also complete
- **Conservations works: 3D models, Diffwys Quarry.** These models can be used as part of condition monitoring, they're also a means of experiencing elements of the historic landscape without physically visiting sites

Town Centre Improvements

- *Pedestrian directional signage scheme being developed for the main slate communities*
- *Footpath and highway improvements completed in **Tywyn, Porthmadog, Penygroes and Bethesda**, also to be completed in **Llanberis and Blaenau Ffestiniog***
- *Upgrade of Golff Giamocs in **Porthmadog** plus Llechi Cymru banners*



Golff Giamocs, Porthmadog

- Gwelliannau i dir canol y dref yn Nhywyn ar y gweill
- Binau a meinciau wedi'u brandio i'w gosod
- Ymrwymiad i gefnogi prosiectau cymunedol, gan gynnwys campfa awyr agored yn Llanberis ac ardal chwaraeon aml-ddefnydd ym Mlaenau Ffestiniog
- Mewnosodiadau llechi i'w gosod yn y palmentydd yn Nhywyn, Penygroes a Phorthmadog yn dilyn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr lleol

- *Improvements to town centre land in Tywyn underway*
- *Branded bins and benches to be installed*
- *Commitment to support community projects, including an outdoor gym in Llanberis and a multi-use sports area in Blaenau Ffestiniog*
- *Slate inserts to be installed in the pavements in Tywyn, Penygroes and Porthmadog following consultation with local representatives*




Gwaith celf gyhoeddus *public artwork*, Penygroes

Mae rhaglen Llewyrch o'r Llechi hefyd wedi comisiynu ymarferwyr creadigol lleol i hwyluso prosiectau celf gyhoeddus ym Mhorthmadog, Penygroes, Blaenau Ffestiniog, Bethesda a Llanberis. Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#).

The Llewyrch o'r Llechi programme has also commissioned local creative practitioners to facilitate public art projects in Porthmadog, Penygroes, Blaenau Ffestiniog, Bethesda and Llanberis. For more information click [here](#).

- Mae gwaith celf ym Mlaenau Ffestiniog, a wnaed gan **Original Roofing Company**, bellach wedi'i gwblhau
- Mae cerfluniau wedi eu gosod ym Mhorthmadog - a grëwyd gan yr artist Howard Bowcott

- *Blaenau Ffestiniog artwork, made by the **Original Roofing Company**, now complete*
- *Sculptures have been installed in Porthmadog - created by Howard Bowcott*



Gwaith celf gyhoeddus *public artwork*, Porthmadog



Gwaith celf gyhoeddus *public artwork*, Blaenau Ffestiniog

LleCHI LleNI

Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol
Our World Heritage Site, Our Pride, Our Future

- Enghraifft arall o ddefnyddio Statws Treftadaeth y Byd fel modd o sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi cymunedau yn y dirwedd lechi
- Prosiect gwerth £2 filiwn dros 5 mlynedd (2024 - 2029) - Grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Gwelwch Fwletin Hydref 2024 ar gyfer gwybodaeth gefndirol y prosiect: [cliciwch yma](#)
- Mae'r rhaglen hon o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar y gweill. Mae teithiau cerdded a darlithoedd mor boblogaidd fel bod yn rhaid i ni ystyried ailadrodd digwyddiadau mewn rhai achosion

- *A further example of utilising World Heritage Status as a means of securing additional funding to support communities in the slate landscape*
- *£2million project over 5 years (2024 - 2029) - National Lottery Heritage Fund grant*
- *See October 2024 bulletin for background information on the project: [click here](#)*
- *This programme of events and activities is underway. Walks and lectures are proving so popular that in some instances we are having to consider repeating events*



Digwyddiadau diweddar LleCHI LleNI Recent LleCHI LleNI events

Digwyddiadau diweddar LleCHI LleNI

- **Cyflwyniad i'r Gymraeg a Chwedloniaeth Dyffryn Nantlle.** Trigonos, Nantlle. Efo Anne Bierd a Kristoffer Hughes
- **Rhannu Hen Luniau ac Atgofion.** Gwesty Seren, Llan Ffestiniog. Efo Gareth Roberts, Menter Fachwen
- **Llechi'r Enfys.** Llety Arall, Caernarfon. Arwel Gruffydd, Kristoffer Hughes, Mike Parker a Norena Shopland yn sgwrsio am rywioldeb a hunaniaeth rhywedd ymhlith y llechi yn yr 80au a'r 90au

Recent LleCHI LleNI Events

- **An Introduction to the Welsh Language and Mythology of Dyffryn Nantlle.** Trigonos, Nantlle. With Anne Bierd and Kristoffer Hughes
- **Sharing Old Photos and Memories.** Gwesty Seren, Llan Ffestiniog. With Gareth Roberts, Menter Fachwen
- **Llechi'r Enfys.** Llety Arall, Caernarfon. Arwel Gruffydd, Kristoffer Hughes, Mike Parker and Norena Shopland in conversation about sexuality and gender identity among the slates in the 80s and 90s



Gwesty Seren, Llanffestiniog



Trigonos, Nantlle



Llechi'r Enfys, Llety Arall, Caernarfon



Teithiau Cerdded

- Taith gerdded dywys Cwm y Glo a Chraig yr Undeb (Gareth Roberts, Menter Fachwen)
- Taith gerdded dywys Dyffryn Nantlle (Dr Dafydd Gwyn)
- Taith gerdded dywys Deiniolen a Chlwt y Bont (Gareth Roberts, Menter Fachwen)



Taith cerdded *guided walk*, Cwm y Glo a Chraig yr Undeb

Walks

- *Cwm y Glo and Craig yr Undeb guided walk (Gareth Roberts, Menter Fachwen)*
- *Dyffryn Nantlle guided walk (Dr Dafydd Gwyn)*
- *Deiniolen and Clwt y Bont guided walk (Gareth Roberts, Menter Fachwen)*



Taith cerdded *guided walk* Dyffryn Nantlle

Sgyrsiau

- Noson o Ffilmiau Drôn: Archaeoleg a Hanes Lleol (Gareth Roberts, Menter Fachwen a Martin Davies – Ardal)
- Ailadroddwyd y digwyddiad uchod oherwydd ei boblogrwydd
- Hanes y Streic Fawr ym Mynydd Llandygai a Rhiwlas (Arwyn Oliver, Cynrig Hughes). Mewn cydweithrediad â Menter Iaith Bangor



Darlith *lecture*, Rhiwlas

Talks

- *An Evening of Drone Films: Local Archaeology and History (Gareth Roberts, Menter Fachwen and Martin Davies – Ardal)*
- *The above event was repeated owing to its popularity*
- *History of the Great Strike at Mynydd Llandygai and Rhiwlas (Arwyn Oliver, Cynrig Hughes). In association with Menter Iaith Bangor*



Darlith *lecture*, Mynydd Llandygai

Rhaglen Grantiau Cymunedol

- Mae ein rhaglen grantiau cymunedol bellach yn fyw (dyddiad cau 21 Mawrth 2025)
- Gweler y pamffled, isod
- Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Llechi@gwynedd.llyw.cymru

Community Grants Programme

- Our community grants programme is now live (deadline 21st March 2025)
- See flier, below
- For more information contact:
Llechi@gwynedd.llyw.cymru

Grantiau Cymunedol LleCHI LleNI

Cronfa newydd i gefnogi prosiectau grwpiau cymunedol yn nyffrynnoedd Llechi Gwynedd.

Gwahoddir ceisiadau am brosiectau sydd yn:

- annog balchder lleol yn nhreftadaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru,
- hybu ymgysylltiad cymunedol i bawb,
- gwella lles a datblygu sgiliau trigolion lleol.

Grantiau hyd at £10,000

Am unrhyw gyngor neu ymholiadau ynglŷn â'r broses, cysylltwch â ni drwy;
E-bostio: Llechi@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 07785 469867

Mae mwy o wybodaeth a pecynnau ymgeisio ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Dyddiad cau: Mawrth 21ain 2025



LleCHI LleNI Community Grants

A new fund to support community group projects in the slate valleys of Gwynedd.

Applications are invited for projects that will:

- encourage local pride in the heritage of the Northwest Wales Slate Landscape World Heritage Site,
- promote community engagement for all,
- improve the well-being and develop the skills of local residents.

Grants up to £10,000

For any advice or queries regarding the process please contact us via;
E-mail; Llechi@gwynedd.llyw.cymru or call 07785 469867

More information and application packs are available on the Cyngor Gwynedd website

Closing date: 21st March 2025



Safle Treftadaeth y Byd

World Heritage Site

- Cafwyd presenoldeb da yn ein **cyfarfod blynyddol** Llechi Cymru (Pant Du, Penygroes). Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r cynrychiolwyr cymunedol hynny a gymerodd ran yn ein panel trafod ac a rannodd eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- **Llywodraethu a Rheoli:** rydym wedi bod yn gweithredu newidiadau arfaethedig i'n strwythur rheoli ar ôl ymgynghori â phartneriaid a rhan-ddeiliaid. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth gymunedol ar ein bwrdd partneriaeth a sefydlu grŵp gweithredu a fydd yn helpu i reoli Safle Treftadaeth y Byd ar lefel weithredol
- Cliciwch **yma** yna cliciwch ar 'Cofnodion Bwrdd Partneriaeth' i weld y set mwyaf diweddar o gofnodion. Gallwch hefyd weld cofnodion cyfarfodydd blaenorol
- Dyluniad adran Safle Treftadaeth y Byd newydd ar gyfer gwefan newydd Parc Gwledig Parc Padarn
- Mynychwyd **cynhadledd World Heritage UK** yng Nghernyw. Cyfle gwych i gysylltu â staff Safle Treftadaeth y Byd gyda nodweddion tebyg i'n rhai ni (e.e. rychwant daearyddol – cydrannau)
- Cyfarfod 'Elwa o is-grŵp Safle Treftadaeth y Byd'
- Cyfarfod is-grŵp dehongli
- *Our Llechi Cymru **annual meeting** (Pant Du, Penygroes) was well attended. We're particularly grateful to those community representatives who took part in our discussion panel and shared their future plans*
- **Governance and Management:** *we've been implementing proposed changes to our management structure following consultation with partners and stakeholders. These changes include greater community representation on our partnership board and establishing an action group which will help manage the World Heritage Site at an operational level*
- Click **here** then click 'Partnership Board Minutes' to see the most recent set of minutes. You can also view the minutes of past meetings
- *Design of new World Heritage Site section for new Parc Padarn Country Park website*
- *Attended **World UK conference** in Cornwall. Excellent opportunity to liaise with staff from a World Heritage Site with similarities to our own (e.g. geographic span – component parts)*
- *'Benefitting from the World Heritage Site' subgroup meeting*
- *Interpretation subgroup meeting*



Cyfarfod blynyddol Llechi Cymru *annual meeting*





- Mae ein hadroddiad blynyddol diweddaraf Llechi Cymru ar gael [yma](#)

- *Our latest Llechi Cymru annual report is available [here](#)*



- Mae cynllunio wedi dechrau ar gyfer adolygiad canol tymor o'n cynllun rheoli
- Mae llyfryn newydd, 'Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru', bellach ar gael. Mae hwn yn crynhoi hanes y diwydiant llechi, yn disgrifio'r hyn sy'n gwneud tirweddau llechi yn arbennig, ac yn cynnig arweiniad ar sut i ofalu am y lleoedd pwysig hyn. [Cliciwch yma.](#)

- *Planning has begun for a mid-term review of our management plan*
- *A new booklet, 'Caring for The Slate Landscapes of Wales', is now available. This sets out a brief history of the slate industry, describes what makes slate landscapes special, and offers guidance on how to look after these important places. [Click here](#)*



Cynnwys Content

Cyflwyniad	6	Introduction	6
01 Ein cymunedau llechi a threftadaeth	8	Our slate communities and heritage	8
Bethesda	18	Bethesda	18
Myrddi Llandygai	22	Myrddi Llandygai	22
Deiniolen a Chwt y Bont	26	Deiniolen and Chwt y Bont	26
Myrddi Cilgwyn	30	Myrddi Cilgwyn	30
Nantlle	34	Nantlle	34
Blaenau Ffestiniog	38	Blaenau Ffestiniog	38
Abergynolwyn	44	Abergynolwyn	44
Yr Iath Gymraeg	47	Welsh Language	47
02 Cynghor Ymarferol: Cynnal a chadw, atgyweirio a gwella	48	Practical Advice: Maintenance, repairs and improvement	48
Pam ein bod ni'n newid ffrang gwerddol adeiladau?	50	Why do we change original building fabric?	50
Cynnal a chadw	52	Maintenance	52
Trawco	55	Repairs	55
Tormau iŵ	61	Roof terminology	61
Amnewid	69	Replacement	69
03 Y cyd-dedun cynllunio ac ystyriaethau arbennig eraill	70	The planning context and other special considerations	70
Safle Treftadaeth y Byd	72	A World Heritage Site	72
Pa bryd fyddwch chi angen caniatâd?	74	When do you require consent?	74
Ystyriaethau arbennig eraill	77	Other special considerations	77
Difodol i cymunedau llechi	81	A future for the slate communities	81
I gael gwybodaeth fwy	82	Finding out more	82

Llyfryn Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru *Caring for the Slate Landscapes of Wales* booklet

Tirfeddianwyr a Busnesau

Landowners and Businesses

- **Brecwast Busnes:** Diolch i bawb a ddaeth i'n digwyddiad Brecwast Busnes diweddaraf ym Mhlas Tan y Bwlch. Mae'n dda clywed sut mae busnesau lleol yn ymgysylltu â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru
- Darpariaeth barhaus o **sesiynau cyngor anffurfiol ar gyfer datblygwyr** cyn i ddatblygiadau arfaethedig fynd i'r broses gynllunio ffurfiol
- Gweithio gyda Cadw, Heddlu Gogledd Cymru a rhan-ddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am droseddau treftadaeth yn yr ardal. Ceir rhagor o wybodaeth **yma**. Ceir arweiniad ar drefn adrodd gywir **yma**
- Cyfeirio cwmnïau cynhyrchu a sgowtiaid lleoliad at dirfeddianwyr a chyrrff perthnasol ynghylch caniatâd ffilmio
- ***Business Breakfast:*** *thanks to everyone who came to our most recent Business Breakfast event at Plas Tan y Bwlch. Good hear how local businesses are engaging with The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site*
- Ongoing provision of **informal advice sessions for developers** prior to proposed developments entering the formal planning process
- Working with Cadw, North-Wales Police and stakeholders to raise awareness around heritage crime in the area. More information **here**. Guidance on correct reporting procedure **here**
- Signposting production companies and location scouts to relevant landowners and bodies regarding filming permissions



Trosedd treftadaeth *heritage crime*, Llanberis



Cefnogaeth i Bartneriaid

Support for Partners

- Rydym wedi bod yn gweithio gydag Amgueddfa Lechi Cymru ar eu strategaeth ddehongli newydd, fel rhan o brosiect ailddatblygu'r amgueddfa. Mae'r gwaith ailddatblygu yn rhan o raglen Llewyrch o'r Llechi (a ariennir gan Lywodraeth y DU)
- Presenoldeb ar Banel Cyngori Rhanbarthol Heneb: Archaeoleg Gwynedd
- Cyfraniad i gwrs MA Treftadaeth Byd-eang Prifysgol Bangor, a thrafodaeth gyda staff ynghylch darpariaeth cyrsiau byr
- We've been working with the National Slate Museum on their new interpretation strategy, as part of the museum's redevelopment project. The redevelopment work forms part of the Llewyrch o'r Llechi programme (funded by UK Gov)
- Presence on Heneb: Gwynedd Archaeology Regional Advisory Panel
- Contribution to Bangor University MA Global Heritage course, and discussion with staff regarding short course provision

Cymunedau a Mentrau Cymdeithasol

Communities and Social Enterprises

- Sesiynau rhannu gwybodaeth gyda chynrychiolwyr o gymunedau Bethesda, Llanberis, Porthmadog, Penygroes, Tywyn a Blaenau Ffestiniog ar brosiect Llewyrch o'r Llechi (wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU)
- Camau olaf gosod prosiectau celf gyhoeddus
- Cylchredeg gwybodaeth am raglen grantiau cymunedol LleCHI LleNI sydd newydd ei lansio, gan ymateb i ymholiadau cyffredinol gan ddarpar ymgeiswyr
- Cynllunio ar y gweill ar gyfer cyfres nesaf o gyfarfodydd Grwpiau Llechi Lleol
- Information sharing sessions with representatives from the communities of Bethesda, Llanberis, Porthmadog, Penygroes, Tywyn and Blaenau Ffestiniog on the Llewyrch o'r Llechi project (funded by UK Gov)
- Final stages of installing public art projects
- Circulating information on the newly launched LleCHI LleNI community grants programme, responding to general queries from potential applicants
- Planning underway for next series of Local Slate Groups meetings

Digwyddiadau a Fynychwyd

Events Attended

- Gŵyl Mawr y Rhai Bychain (Neuadd Ogwen, Bethesda). Cyflwyniadau a thrafodaeth ar hanes, diwylliant ac ieithoedd pobl frodorol Canada. Rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig
- Cyflwyniad / astudiaeth achosion fel rhan o'r digwyddiad lansio ar gyfer pecyn cymorth Datblygu Cynulleidfa Comisiwn UNESCO y DU)
- Digwyddiad Prifysgol Bangor: Prosiect Canolfan Dysgu Morwrol Bangor
- Digwyddiad rhwydweithio, neuadd bentref Rhiwlas. Diweddariadau gan: ArdalNi 2035, LleChi LleNi, GwyrddNi a Phartneriaeth Dyffryn Peris
- Digwyddiad rhannu gwybodaeth, Amgueddfa Lechi Cymru (ailddatblygu'r amgueddfa)
- Rhwydwaith pobl ifanc, Cwmni Bro Ffestiniog / Partneriaeth Ogwen
- Cynhadledd Economi Ymweld Gwynedd & Eryri: Datblygu Economi Ymweld Cynaliadwy yn yr Ardal. Prifysgol Bangor
- *World Heritage UK Annual Conference, Cornwall*
- *Gwyl Mawr y Rhai Bychain (Neuadd Ogwen, Bethesda). Presentations and discussion on the history, culture and languages of the Indigenous Peoples of Canada. Part of the UN Decade of Indigenous Languages*
- *Presentation / cases study as part of the launch event for UNESCO UK Commission's Audience Development toolkit*
- *Bangor University Event: Bangor Maritime Learning Centre project*
- *Networking event, Rhiwlas village hall. Updates from: ArdalNi 2035, LleChi LleNi, GwyrddNi and Partneriaeth Dyffryn Peris*
- *Information sharing event, National Slate Museum (museum redevelopment)*
- *Young people's network, Cwmni Bro Ffestiniog / Partneriaeth Ogwen*
- *Gwynedd & Eryri Visitor Economy Conference: Developing a Sustainable Visitor Economy in the Area. Bangor University*



Digwyddiad UNESCO event




Cynhadledd World Heritage UK conference




Digwyddiadau Llechi Cymru yn y Dyfodol

Future Llechi Cymru Events



Mae BBC Countryfile (Mawrth 16eg) yn cynnwys Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

BBC Countryfile (March 16th) will feature The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site.



Yn ystod mis Ebrill bydd cynrychiolwyr Llechi Cymru yn mynychu gweithdy 'Local to Global' Comisiwn y DU UNESCO ym Mhorthaethwy, a gynhelir gan Geoparc Byd-eang GeoMôn. Thema'r gweithdy yw newid hinsawdd.

During April Llechi Cymru representatives will attend UNESCO UK Commission's 'Local to Global' workshop in Porthaethwy, hosted by GeoMôn UNESCO Global Geo Park. The theme of the workshop is climate change.

Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau, dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @llechicymru

Follow us on social media for all the latest information on upcoming events: @llechicymru



www.llechi.cymru

Llechi@gwynedd.llyw.cymru

